

Cwmpas y Cynllun Gweithredu:

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ymdrin â phob un o'r capiau cwyw o'r Genws Hygrocybe.

1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Dim yn wybyddus
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA ^a Blaenoriaeth CGB DU ^b Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 ^c RoBC ^d
Gwynedd	Dim yn wybyddus

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae rhywogaethau o'r genws Hygrocybe, sydd yn frodorol i'r DU, hefyd wedi eu cofnodi yn y Caribî ac yn Awstralia lle y canfuwyd yng nghanol coedlannau. Yn y DU a gweddill gogledd Ewrop, mae'r un rhywogaethau yn tyfu ar dir heb ei wella neu wedi ei led-wella ble mae'n well ganddynt y cynhesrwydd a geir o olau'r haul yn llewyrchu'n uniongyrchol ar y tir. Yn y DU yn unig mae dros 40 rhywogaeth Hygrocybe ac, yn wir, mae'r DU yn cynnal cyfran uchel o'r adnodd o gapiau cwyw ar lefel Ewropeaidd.

1.3 Statws yng Ngwynedd^e

Mae dwy rywogaeth o gapiau cwyw, sydd hefyd yn flaenoriaethau CGB DU, wedi eu cofnodi yng Ngwynedd, sef y cap cwyrog pinc Hygrocybe calyptiformis a'r cap cwyrog melynddu Hygrocybe spadicea. Mae'r cap cwyrog pinc i'w weld yn Nhregarth ger Bethesda, ac mae'r cap cwyrog melynddu ychydig oddi fewn i'r Parc wrth y ffin gogledd-orllewinol. Rhai rhywogaethau eraill a welir yw H. helobia, H. lacmus, H. splendidissima, H. punicea, H. citrinovirens, H. Psittacina, H. conica, H. miniata a H. coccinea.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETHAU HYN YNG NGWYNEDD

- Distrywio dolydd gwair a glaswelltir trwy wella amaethyddol e.e. trin y tir, ail hadu neu wrteithio.
- Dinistrio cynefin capiau cwyw drwy raglenni adeiladu trefol neu faestrefol.
- Lleihad mewn lefelau pori, neu ddarfyddiad ar bori neu dorri glaswelltir gan arwain at dyfiant tywarchen fras ac ymlediad prysgwydd.
- Aflonyddwch trwm gan bobl e.e. gall sathru fod yn broblem i rai rhywogaethau.

^a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) Act 2000. Nid yw capiau cwyw yn nodwedd o unrhyw SoDdGA ond gallent gael eu gwarchod yn anuniongyrchol drwy warchodaeth o gynefinoedd perthnasol sydd yn nodwedd o SoDdGA.

^b Cap cwyrog pinc Hygrocybe calyptiformis a'r cap cwyrog melynddu Hygrocybe spadicea yn unig sydd yn rywogaethau blaenoriaeth CGB DU.

^c Dan Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Biolegol". Hawlfraint y Goron 2003 (cap cwyrog pinc Hygrocybe calyptiformis a cap cwyrog melynddu Hygrocybe spadicea yn unig)

^d Rhestr o Rywogaethau o Bryder Cadwraethol y DU (cap cwyrog pinc Hygrocybe calyptiformis a cap cwyrog melynddu Hygrocybe spadicea)

^e O fewn y ddogfen hon mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Canedlaethol Eryri, heblaw lle nodir yn wahanol.

- Gweithgareddau garddio a all fod yn niweidiol, gan gynnwys gormod o gysgod a defnyddio ffwngladdwyr a chemegion lladd mwsogl.

3. CGR / CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Glaswelltir sych asid yr iseldir, Dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir, Gerddi.

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae capiau cwyr i'w canfod mewn ardaloedd o Wynedd a glustnodwyd fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl neu sydd wedi eu dynodi fel GNL, GNG neu SoDdGA.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Dim yn wybyddus

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Mae'r Gymdeithas Mycolegol Prydain yn ymgymryd ag arolwg 'capiau cwyr y glaswelltir' a gychwynwyd ym 1996.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cynnal arolwg ar gapiau cwyr y glaswelltir ac, o ganlyniad, wedi cynhyrchu taflen loyw ar 'Capiau Cwyr y Glaswelltir'.
- Mae methodoleg wedi ei ddylunio (gan Rald, 1985) i werthuso gwerth cadwraethol glaswelltir (heb eu gwella/wedi eu lled-gwella) drwy ddefnyddio capiau cwyr a ffyngau eraill fel dangosyddion^f.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I ganfod statws a dosbarthiad capiau cwyr yng Ngwynedd.
2. I warchod, cynnal a gwella poblogaethau presennol o gapiau cwyr, ffwng glaswelltir, a chynefinoedd perthnasol ar safleoedd presennol.
3. I adfer a gwella safleoedd eraill er mwyn cynyddu poblogaethau a dosbarthiad capiau cwyr.
4. I godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth a phwysigrwydd biolegol capiau cwyr.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ⁹
Polisi a deddfwriaeth		
1	Drwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn gydnaws â chadwraeth capiau cwyr TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Dynodi pob safle capiau cwyr fel Safleoedd Bywyd Gwyllt a chynnig bod safleoedd pwysig ar gyfer ffwng glaswelltir yng Ngwynedd yn cael eu dynodi fel SoDdGA TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005	CG, CCGC

^f Sgorir y glaswelltir yn ôl y nifer o rywogaethau CHEG (ffyngau pastwn Clavarioid, capiau cwyr Hygrocybe, tagellau pinc Enteloma a thafodau'r ddaear Geoglossum) a geir ar y safle (17-32: pwysigrwydd cenedlaethol, 9-16: pwysigrwydd rhanbarthol, 4-8: pwysigrwydd lleol).

⁹ Dangosir y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau.

Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
3	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheoli er mwyn sicrhau y caiff rhostir yr ucheldir ei reoli yn addas a / neu ei adfer, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol y CGBLI TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CTG, LICC, GCFBG Cymru, UAC, CG, UCA Cymru, YG, Plantlife
4	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddiogelu ac adfer cynefin capiau cwyr a rhywogaethau a chynefinoedd y CGBLI mewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu gynlluniau grant (gan gynnwys cynlluniau rheoli SoDdGA, Tir Gofal, AAS) trwy gydweithrediad (gan gynnwys ymgynghori a rhoi sylwadau) rhwng sefydliadau allweddol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, LICC, CG
5	Gweithredu'r PGNG er mwyn sicrhau rheolaeth addas a / neu adfer cynefin addas i gapiau cwyr TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol
Cyngori		
6	Darparu cyngor i dirfeddianwyr a rheolwyr tir ar reolaeth addas ar gyfer bob ffwng glaswelltir (e.e. parhad o bori/torri gwair, dim ail-hadu, a dim ychwanegu gwrtaith na phlaladdwyr) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CTG, LIC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC
Arolygon, ymchwil a monitro		
7	Annog mwy o arolygu o safleoedd addas drwy bartneriaeth gyda grwpiau eraill TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CMP, CCGC, APCE, CG, YBGGC, PCB
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
8	Codi ymwybyddiaeth am bresenoldeb ffwng glaswelltir gyda ffermwyr a thirfeddianwyr drwy gynhyrchu taflen wybodaeth a thrwy weithgareddau a mynychu sioeau amaethyddol lleol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG

7. PARTNERIAID & CHYFLEOEDD

7.1 Prif barner ar gyfer y CGC

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cymdeithas Mycolegol Prydain (CMP)

7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (GCFBG Cymru)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (UCA Cymru)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Plantlife

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

7.3 Cyfleoedd

Gwirfoddolwyr, Myfyrwyr, Undebau ffermio, Tirfeddianwyr a rheolwyr tir

8. DI OLCCHI ADAU

Prif awdur: Charles Aron
Ymgynghorol: Emily Meilleur (CG)
Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, GNG: Gwarchodfa Natur Genedlaethol, GNL: Gwarchodfa Natur Leol.

Fersiwn 1, 2005